ARFOR - Llwyddo'n Lleol 2050

Oes gen ti syniad am fusnes neu weithgaredd awyr agored ar gyfer dy ardal leol?

Mae gan ARFOR - Llwyddo'n Lleol 2050 gyfle arbennig i 24 person ymuno â rhaglen hyfforddiant ar gyfer unigolion sy'n awyddus i ddatblygu syniad am fusnes neu weithgaredd awyr agored!

Fel rhan o'r rhaglen bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn pedair sesiwn hyfforddiant wythnosol yng nghwmni arbenigwyr yn y maes. Bydd sesiynau wythnosol yn canolbwyntio ar themâu megis marchnata, rheoli cyllid a sut mae denu cwsmeriaid. Bydd diwrnod cyffrous o antur hefyd yn gael ei drefnu fel cyfle i rwydweithio a mwynhau bob dim sydd gan ARFOR i gynnig yn yr awyr agored!

Yn ogystal â chefnogaeth arbenigol bydd ymgeiswyr llwyddiannus hefyd yn derbyn cefnogaeth ariannol o £1000 i helpu symud eu syniad yn ei blaen.

Gall enghreifftiau o syniadau addas gynnwys:

- Cynnal cyfres o ddigwyddiadau neu nosweithiau adloniant yn yr awyr agored
- Cynnal cyfres o weithdai neu ddosbarthiadau yn yr awyr gored
- Sefydlu clwb neu gymdeithas chwaraeon awyr agored

Am ragor o wybodaeth, neu os oes gen ti unrhyw gwestiynau, cysyllta â llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru

CEFNDIR ARFOR

Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn yw'r siroedd gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ond mae'r nifer wedi bod yn gostwng ers amser maith. Mae cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn nod allweddol i Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Miliwn o Siaradwyr Cymraeg 2050. Mae Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn hefyd yn siroedd sydd gyda heriau economaidd gan eu bod yn siroedd gwledig gyda chyflogau isel.

Clustnodwyd £11 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod 2022/2023 i -2024/25 i ganiatáu'r pedair sir i gydweithio a chreu ymyraethau i sicrhau ffyniant economi Gorllewin Cymru ac i arbrofi a threialu cynlluniau i'r perwyl.

Mae ARFOR felly yn rhaglen ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn sy'n edrych i ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a, thrwy hynny, cynnal yr iaith.

O dan Raglen ARFOR mae yna nifer o gronfeydd sy'n cynnig grantiau ariannol i fusnesau ac

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

unigolion megis Cronfa Her ARFOR a'r Gronfa Genfnogaeth Cymunedau Mentrus.

Am fwy o wybodaeth am yr uchod a rhaglen ARFOR gweler: www.rhaglenarfor.cymru

CEFNDIR LLWYDDO'N LLEOL 2050

Un o brosiectau Rhaglen ARFOR yw Llwyddo'n Lleol 2050. Gydag allfudo teuluoedd a phobl ifanc yn cael ei gydnabod fel un o'r prif resymau am ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cadarnleoedd, nod Llwyddo'n Lleol 2050 yw darbwyllo pobl ifanc a theuluoedd ifanc sydd mewn peryg o adael neu sydd eisoes wedi ymadael bod modd cael dyfodol disglair, gyda swydd dda o fewn maes cyffrous, yn eu cymuned gynhenid.

Mae yna bedair elfen i brosiect Llwyddo'n Lleol 2050:

1. Elfen Gyrfaol
2. Elfen Mentro
3. Elfen Ymgartrefu
4. Elfen Profi

CANLLAWIAU:

Pwy sy'n gymwys?

- Unigolion rhwng 18 a 35 oed
- Unigolion sydd yn byw yn ardal ARFOR (Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn) neu sy'n wreiddiol o ardal ARFOR ac yn bwriadu symud yn ôl i un o'r siroedd uchod yn y dyfodol agos.
- Unigolion sydd yn gallu siarad Cymraeg neu sydd wedi ymrwymo i ddysgu a defnyddio'r iaith.
- Unigolion sydd â syniad am fusnes neu weithgaredd awyr agored, sy'n barod i ymrwymo i bedair sesiwn o hyfforddiant yn nwylo arbenigwr, gan gynnwys mynychu diwrnod o hyfforddiant a gynhelir 'wyneb yn wyneb'.
- Unigolion sydd wedi dechrau busnes awyr agored newydd o fewn y ddwy flynedd diwethaf ac am gymorth i ddatblygu'r fusnes/fenter.

Pa fath o fusnes?

- Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon, mae'n ofynnol bod pob syniad am fusnes neu weithgaredd yn ymwneud â'r awyr agored. Fel arall, nid oes cyfyngiad ar y math o fusnes neu weithgaredd y gellir eu cynnig.
- Gall enghreifftiau o syniadau cymwys gynnwys sefydlu clwb neu gymdeithas sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd awyr agored; cynnal digwyddiad neu noson o adloniant yn yr awyr agored; neu gynnal dosbarth neu weithdy yn yr awyr agored.

- Rhaid rhedeg y busnes neu cynnal y gweithgaredd o fewn siroedd ARFOR: Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn.
- Rhaid rhedeg y busnes neu'r weithgaredd yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, neu o leiaf rhoi platfform cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n rhaid bod y busnes yn cael ei redeg yn bennaf drwy'r Gymraeg neu oleuaf yn rhoipwyslais/platfform gwbl gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.
- Os nad ydych yn siŵr os yw eich busnes/ gweithgaredd yn gymwys danfonwch e-bost at: llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru

TELERAU'R GEFNOGAETH:

Beth sy'n ofynnol o'r unigolyn?

- Mae disgwyl ymrwymiad llawn gan aelodau'r rhaglen i fynychu a chyfrannu i bob un o sesiynau'r rhaglen.
- Disgwylir i bob unigolyn gwblhau unrhyw dasgau â osodir yn wythnosol, gan gynnwys y sesiwn olaf lle gofynnir i unigolion gyflwyno ei syniad o flaen panel o feirniaid.
- Disgwylir i bob unigolyn ymrwymo i fod yn llysgennad i Llwyddo'n Lleol 2050 drwy fod yn rhan o glipiau fideo, podlediadau, astudiaethau achos ayyb.
- Yn ogystal â mynychu'r sesiynau bydd yna ofyniad i chi gyfrannu at ymgyrch ddigidol Llwyddo'n Lleol drwy rannu eich profiadau ar gamera wrth i'r hyfforddiant fynd rhagddi. Bydd y gwaith cyfweld a ffilmio yn cael ei wneud gan griw Cyfathrebu Llwyddo'n Lleol yn ystod cyfnod y sesiynau. Mi fydd y cynnwys yn cael ei rannu ar blatfformau digidol Llwyddo'n Lleol:
    - Instagram - @llwyddonlleol
    - Facebook - Llwyddo'n Lleol 2050
    - LinkedIn - Arfor - Llwyddo'n Lleol
    - Twitter - @LleolN
- Mi fydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus i arwyddo cytundeb yn ymrwymo i'r gofynion a'r telerau uchod cyn cychwyn ar y rhaglen hyfforddiant busnes.
- Mae'r prosiect yn cael ei weinyddu gan Menter Môn a Menter a Busnes ac mae gan y gweinyddwyr yr hawl i ddal taliadau yn ôl, i beidio rhoi taliad llawn ac i fynnu ad-daliad os nad ydych fel cyfranogwr yn cwrdd â'r gofynion a'r telerau uchod.

Beth sy'n ofynnol o'r busnes?

- Mae yna ofyniad i fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i gwblhau asesiad laith sy'n cael ei gynnal gan Comisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r broses ag ymrwymo i weithio gyda'r Comisiynydd i gael cydnabyddiaeth Cynnig Cymraeg erbyn Rhagfyr 2024.
- Mae yna ofyniad i fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i ymrwymo i gymryd

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

rhan yng ngwerthusiad y prosiect.

- Disgwylir i fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i ystyried llofnodi'r Addewid Twf Gwyrdd
- Disgwylir i fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i ystyried llofnodi'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi
- Disgwylir i fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i ystyried llofnodi'r Addewid Cydraddoldeb | Busnes Cymru (gov.wales)

Dyddiadau'r sesiynau hyfforddiant:

- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer y rhaglen hon yn cael eu rhannu yn ddau gohort. Bydd un cohort ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus o Wynedd ac Ynys Môn, a cohort ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus o Geredigion a Sir Gâr.

- Cynhelir sesiynau'r rhaglen hon drwy gyfuniad o sesiynau rhithiol, a sesiynau wyneb yn wyneb. Bydd dwy o sesiynau'r rhaglen yn gyfarfodydd rhithiol, a'r ddwy sesiwn arall yn gyfarfodydd wyneb yn wyneb, gan gynnwys un diwrnod o hyfforddiant.

- Bwriedir cynnal sesiynau'r rhaglen ar y dyddiadau canlynol (noder, gall y dyddiadau hyn newid):

  - **Cohort Gwynedd ac Ynys Môn:** Ebrill 23ain (*Rhithiol*), Ebrill 27ain (**Diwrnod Hyfforddiant,** *lleoliad i'w gadarnhau*), Mai 7fed (Rhithiol) a Mai 21ain ('Taro'r Nodyn', *lleoliad i'w gadarnhau*).

  - **Cohort Ceredigion a Sir Gâr:** Ebrill 30ain (*Rhithiol*), Mai 4ydd (**Diwrnod Hyfforddiant,** *lleoliad i'w gadarnhau*), Mai 14eg (*Rhithiol*) a Mai 23ain ('Taro'r Nodyn', *lleoliad i'w gadarnhau*).

Dyddiad Cau:

Mi fydd y ffenest yn agored rhwng y 26ain o Chwefror a'r 24ain o Fawrth. Dylid dychwelyd y ffurflen gais a'r clip fideo erbyn 23:59yh ar y 24ain o Fawrth.

Sut i ymgeisio?

- I ymgeisio llenwch y Ffurflen Gais **yma.**

- Noder, ar ddiwedd y Ffurflen Gais, mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gyflwyno fideo byr. Yn y fideo hwn, gofynnir i bob ymgeisydd gyflwyno eu hunain a'u cefndir a rhoi rhyw fath o fraslun o'ch syniad busnes/gweithgaredd awyr agored a'r hyn yr ydych yn gobeithio ei gael allan o'r rhaglen ARFOR - Llwyddo'n Lleol 2050.

- Ni ddylai'r fideo fod yn fwy na 5 munud. Fe'ch anogir i recordio'r fideo cyn dechrau ar y broses o lenwi'r Ffurflen Gais. Noder y bydd ceisiadau a gyflwynir heb glip fideo yn cael ei drin fel 'cais anghyflawn' ac felly ni fyddant yn cael ei sgorio a'u hystyried.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- Mi fydd angen danfon y clip fideo at **llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru** ac os ydych yn cael anhawster yn danfon y fideo mae modd defnyddio rhaglenni megis WeTransfer

- Os fydd eich cais yn llwyddiannus noder y bydd modd i Llwyddo'n Lleol ddefnyddio eich clip fideo ar eu platfformau cyfryngau cymdeithasol.

Sgorio:

- Yn dilyn y dyddiad cau mi fydd yna banel o swyddogion yn cwrdd i sgorio'r ceisiadau ac yn eich hysbysu os ydych wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

Am ragor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Sgorio:

Yn dilyn y dyddiad cau, bydd panel o swyddogion yn cwrdd i sgorio'r ceisiadau, gan edrych yn benodol ar yr elfennau isod:

- Cryfderau a gwendidau'r syniad busnes
- Gwerth am arian h.y. Y defnydd a fwriedir ei wneud o'r cymorth ariannol
- Gallu'r unigolyn/busnes i gyfrannu tuag at ymgyrch hyrwyddo Llwyddo'n Lleol 2050.

Am ragor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â **llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

ARFOR - Llwyddo'n Lleol 2050

Do you want to start or develop a new business?

Llwyddo'n Lleol 2050 has a SPECIAL opportunity for 12 people to join our business training programme.

As part of the programme, successful applicants will receive weekly sessions with business specialists focusing on aspects such as marketing, finance management and attracting customers.

As well as specialist support, participants will also receive additional financial support of £1,000 to develop their business idea.

The programme is open to applicants from throughout the ARFOR region and will be held through a combination of hybrid and in-person sessions.

ARFOR BACKGROUND

Ceredigion, Gwynedd, Carmarthenshire and Anglesey are the counties with the highest percentage of Welsh speakers but the number has been decreasing for a long time. Increasing the number of Welsh speakers is a key goal for the Welsh Government through the Welsh Language Strategy Plan 2050. Ceredigion, Gwynedd, Carmarthenshire and Anglesey are also counties with economic challenges as they are rural counties with low wages.

£11 million has been earmarked by the Welsh Government for the period 2022/2023 to 2024/2025 to allow the four counties to work together and create interventions to ensure the prosperity of the West Wales economy and to experiment and trial schemes to that end.

ARFOR therefore is a joint venture by Carmarthenshire, Ceredigion, Gwynedd and Anglesey Councils which seeks to use entrepreneurship and economic development to support the heartlands of the Welsh language and, thus, maintain the language.
The ARFOR programme includes a number of funds that offer grants to businesses and individuals, such as the ARFOR Challenge Fund and the Enterprising Communities Support Fund.
For more information on the above and the ARFOR programme go to: www.rhaglenarfor.cymru
https://www.rhaglenarfor.cymru/index.en.html

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

LLWYDDO'N LLEOL 2050 BACKGROUND

One of the ARFOR programme projects is Llwyddo'n Lleol 2050. With out-migration of families and young people being recognised as one of the main reasons for a decline in the number of Welsh speakers, Llwyddo'n Lleol aims to persuade those who are most likely to go, or who have already left, that they can have a bright future and a good job in an exciting field of work within their local communities.

There are four elements to the Llwyddo'n Lleol 2050 project:

1. 'Gyrfaol' initiative
2. 'Mentro' initiative
3. 'Ymgartrefu' initiative
4. 'Profi' initiative

GUIDELINES:

Who is eligible?

- Individuals aged between 18 and 35.
- Individuals living in the ARFOR area (Carmarthenshire, Ceredigion, Gwynedd and Anglesey) or are originally from the ARFOR area and intend to return to live in one of the above counties.
- Individuals who are Welsh speakers or who have committed to learn and use the language.
- Individuals who have a business idea that are ready to commit to eight sessions with a group of like-minded individuals.
- Individuals who have started a new business within the last two years and are seeking support to grow the business.

What type of business?

- There are no restrictions regarding the type of business – the business could be sellingproduce/goods or providing a service.
- The business must be run primarily through the medium of Welsh, or at a minimum, putting an emphasis on/giving a completely equal platform to Welsh and English.

TERMS OF THE SUPPORT:

What is required of the individual?

- Programme members are expected to be fully committed to attending, and contributing to, every weekly session, beginning with the first session held on the 1st of February. The programme's sessions are scheduled to take place on the following dates: 1st of February, 8th of February, 22nd of February, 29th of February, 7th of March, 14th of March, 21st of March and the 11th of April (Please note that these dates are subject to change).

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- Every individual is expected to complete any set tasks every week including the final session where they will be required to make a business presentation in front of a panel of judges.
- Every individual is expected to commit to being a Llwyddo'n Lleol 2050 ambassador through participating in video clips, case studies etc.
- You will also be asked to contribute to the campaign through promoting the project, especially on Social Media, and contribute towards the project's objectives including showing an honest picture of living in, and being in, your area under the Llwyddo'n Lleol team's lead.

What is required of the business?

- It is a requirement for businesses that receive support through the project to complete a Language assessment conducted by the Welsh Language Commissioner as part of the process of committing to working with the Commissioner to get Cynnig Cymraeg recognition by December 2024.
- Businesses that receive funding through the project are required to commit to participate in the evaluation of the project.
- Businesses that receive support through the project are expected to sign the Green Growth Pledge
- Businesses that receive support through the project are expected to consider signing the Code of Practice on Ethical Employment in Supply Chains
- Business that receive support through the project are expected to sign the Equality Pledge | Business Wales (gov.wales)

It will be compulsory for successful individuals to sign a contract committing to the above requirements and terms before beginning the business training programme.

The project is administrated by Menter Môn and Menter a Busnes, and the administrators have the right to hold payments back, not to give the full payment and to demand a refund if a participant has not met the above requirements and terms.

Key dates:

The expression of interest window will be open between December 21st and January 21st. Any application forms should be returned by 23:59 on January 21st.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

How to apply?

To apply, please complete this Application Fform.

- After completing the Application Form, you will need to send a video of yourself to the e-mail address below and stating your name/business name in the *'subject'* - llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru. Videos may be submitted by sending an e-mail or via *WeTransfer* to: llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru
- The video should include a brief description of who you are, your background, an outline of your business idea and what you are hoping to get out of the Llwyddo'n Lleol 2050 business training programme (the video should not be longer than 5 minutes).

Scoring:

Following the deadline, a panel of officers will meet to score the applications looking specifically at the aspects listed below:

- Strength and weaknesses of the business idea
- Value for money e.g., intended use of financial support
- The individual's/business' ability to contribute towards the Llwyddo'n Lleol 2050 promotional campaign.

For more information or if you have any questions contact
llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government